# MORRIS, WILLIAM (circa 1816? - 1886), cyhoeddwr llyfrau a chylchgronau Eglwysig ac argraffydd

**Enw:** William Morris
**Dyddiad geni:** circa 1816?
**Dyddiad marw:** 1886
**Plentyn:** W. Morris
**Plentyn:** Rupert Hugh Morris
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyhoeddwr llyfrau a chylchgronau Eglwysig ac argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Yn ôl Cyfrifiad 1851 trigai yn 47 High Street, Holywell. Disgrifia'i hun fel llyfrwerthwr 35 oed yn cyflogi chwe gweithiwr.

Ef oedd cyhoeddwr *Yr Eglwysydd* o'r cychwyn yn 1847, yn Nhreffynnon hyd 1860, ac ar ôl hynny parhaodd i gyhoeddi'r misolyn hwn yn Ninbych. Bu hefyd yn cyhoeddi 'r *Cymro*, wythnosolyn Eglwysig a Cheidwadol, yn y ddwy dref uchod. Ef hefyd a ysgrifennai lawer o gynnwys y ddau gyhoeddiad hyn. Yr oedd hefyd yn llyfrwerthydd ac yn siaradwr rhugl yn y ddwy iaith. Yn Ninbych, lle bu fyw o 1860 ymlaen, daeth yn aelod o'r cyngor trefol, yn ustus heddwch, ac yn bostfeistr, heblaw parhau'n argraffydd, cyhoeddwr, a llyfrwerthydd.

Bu'n briod ddwywaith, a chafodd dri o feibion ac un ferch. Ei fab hynaf oedd y canon W. Morris, caplan i ddug Westminster yn Eaton Hall, sir Gaer; ei ail fab oedd y canon Rupert Hugh Morris (1843 - 1918), a fu'n olygydd *Archæologia Cambrensis*

Bu farw ar ôl hir waeledd ar 8 Hydref 1886 yn ei gartref, ' Gwilymfod,' a'i gladdu ym mynwent yr Eglwys Wen, Dinbych. (Anghywir yw'r adroddiad yn *Y Faner* iddo fyw 40 mlynedd yn Ninbych; ac yn ôl yr un adroddiad yr oedd yn 85 yn marw. Yn ôl Bye-Gones, 74 oedd ei oed.)

## Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

## Ffynonellau


*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1386, 145

*Baner ac Amserau Cymru*, 9 Hydref 1886

*Yr Haul*, Tachwedd 1886

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821453


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu